# CYNGOR CYMUNED CLYNNOG FAWR

-------------------------------------------

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Clynnog fawr a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref, Clynnog nos Fawrth 16 Rhagfyr 2025.

**1.** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod.

**2. <u>Ymddiheuriadau</u>** – Eleri Owen, Ken Williams, Iwan Williams,

**<u>Presennol</u> -** Aaron Hughes (cadeirydd), Eifion Jones, Elias Jones, Gwenno Griffiths, Siôn Tomos, Guto Rhys Huws, Thomas Williams,

**3. <u>Cofnodion cyfarfod 18 Tachwedd 2025</u>** – Cynigwyd gan Thomas Williams ac eiliwyd gan Elias Jones fod y cofnodion yn gywir.

**4. <u>Materion yn Codi</u>**

1. Ynys Wyllt - dim i'w adrodd. Y clerc wedi cysylltu â'r gyfreithwraig unwaith eto ond heb dderbyn ymateb. Aaron Hughes am gysylltu â LWH â gofyn iddynt hwy gysylltu â hi.

2. Mynediad i'r fynwent – dim i'w adrodd. Y clerc wedi cysylltu â'r gyfreithwraig unwaith eto ond heb dderbyn ymateb.

3. Pont Tai Lôn a Pantafon – y gwaith yma dal heb ei orffen.

4. Coed Aberdesach - holi Eirian Allport os ydi wedi cysylltu â Henbant ynglŷn â phlannu'r coed.

5. Arwydd cyflymder - Eifion Jones am ddilyn fyny ar hyn gyda Cyng. Dafydd Davies.

6. Deffibs - Y clerc wedi edrych dros y 3 difib a phopeth yn iawn. Wedi cael cyfarwyddyd gan Defib Store nad ydynt yn gwneud y cabinet sy ym Mhontllyfni bellach nag yn medru cael darnau newydd iddo ac maent yn awgrymu cael cabinet newydd. Cynnig gyrru i Un Llais i ofyn a oes yna gwmni yn ymwneud yn uniongyrchol â hyn. Cynnig i holi plwyfi cyfagos os oes ganddynt ddiddordeb mewn edrych ar ôl y diffibs ar ein rhan. Hefyd y clerc i gael pris am gabinet newydd i Bontllyfni.

7. Biniau - ymateb gan Gyngor Gwynedd yn dweud bod cais wedi ei wneud llynedd i dynnu'r bin o Gae'r Bont ond mi allent edrych fewn i'w osod yn nôl. Holi Cyng. Dafydd Davies am hyn.

8. Llwybr Lan Môr - dim i'w adrodd gan nad ydi pwyllgor pysgotwyr yn cyfarfod tan y gwanwyn bellach. Holi Cyng. Dafydd Davies os wedi siarad gyda Chyngor Gwynedd am hyn. Aaron Hughes am siarad gydag Arwel Jones, Contractwyr torri gwair i fynd i edrych a gweld os oes unrhyw beth ellir ei wneud a chael pris ganddo.

9. Clwb Ieuenctid a chais grant Gwynedd Ni – y gwaith hwn mewn llaw.

10. Cwynion am chwyn o gwmpas y pentrefi - angen dilyn fyny hefo Cyng. Dafydd Davies os wedi trafod hefo Tîm Tacluso i ddod i'w drin. Holi Gwenno Griffiths pe bai clieintiad y gwasanaeth prawf yn dod i wneud y math yma o waith. Am holi i weld os yn bosib.

11. Pryderon goddiweddu Aberdesach – nid oedd dim pellach i'w adrodd ar hyn yn y cyfarfod yma.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ……………………………………………………………….

12. Ffoes Simbil - angen dilyn fyny hefo Cyng. Dafydd Davies os wedi cysylltu â swyddog Cyngor Gwynedd am hyn.

13. Golau Nadolig – wedi cael prisiau, ond eisiau edrych fewn i faint sydd angen ayyb. Trafod ymhellach dechrau'r flwyddyn.

**5. Ceisiadau cynllunio** – nid oedd cais cynllunio i'w drafod

**6. Materion ariannol**

a) <u>Sefyllfa ariannol ar 28 Tachwedd 2025</u>

| | |
|---|---|
| Cyfrif cadw (elusen) | £132.95 |
| Cyfrif cyfredol | £22346.59 |

**7. Gohebiaeth -** pawb wedi cael copïau o'r ohebiaeth a dderbyniwyd dros y mis i edrych drostynt. Wedi derbyn e-bost ynglŷn â bod Y Beuno i fyny ar werth ac eisiau gweld pe bai diddordeb mewn creu tîm cymunedol i geisio ei brynu. Trafodwyd y cais ond teimlo nad yw hwn yn rhywbeth y buasai'r Cyngor Cymuned yn ymwneud ag o, ond yn gefnogol o'r syniad ac awgrymu iddynt greu menter gymunedol a siarad gydag aelodau o fentrau tebyg i weld sut i symud mlaen (ee Ty'n Llan, Y Plu, Fic Llithfaen).

**8. Materion aelodau** - Eifion Jones - angen holi Cyngor Gwynedd beth sy'n digwydd ynglŷn â'r dŵr yn dod lawr o gefnau tu ôl i'r garej. Thomas Williams - gofyn a oes modd cael arwyddion ar lwybr lan môr ynglŷn â baw ci. Angen rhai mwy na sydd yna wedi ei gwneud yn bwrpasol. Hefyd efallai yn syniad gosod bagiau baw ci o gwmpas. Siôn Tomos - gwrychoedd wedi eu torri yn ddiweddar a llawer o frigau a drain heb eu casglu yn dilyn hyn a hefyd ar hyd y llwybr beics - gofyn iddynt ddod allan i'w lanhau.

**9. Materion eraill –** dim yn codi.

**10. Cyfarfod nesaf -** Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 20 Ionawr 2026 am 7.30 yr hwyr yn y Neuadd Bentref yng Nghlynnog.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ……………………………………………………………….